# CHRISTOPHER, JACOB (fl. 1655-1690), pregethwr gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Jacob Christopher
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pregethwr gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Richards

Y mae profion y cydnabyddid ef fel pregethwr cyn yr Adferiad yn 1660, ond heb ei neilltuo'n swyddogol at y gwaith; lluddiwyd ef rhag pregethu o gwbl ('silenc'd' yw gair Calamy) cyn Deddf Unffurfiaeth 1662, neu o dan dermau'r Ddeddf honno. Yr oedd iddo gyswllt agos â Mawdlam yn ymyl Margam, ac yno y clywir amdano gyntaf; cafodd ef a Lewis Alward o Gynffig eu cyhuddo, ill dau, dan ddeddfau Clarendon o gylch 1664; yn 1672 cafodd Christopher drwydded i bregethu yn nh Alward yng Nghynffig. Enwir ef gan Henry Maurice yn 1675 fel un o henuriaid athrawol eglwys Cilfwnwr (Tirdoncyn). Dywed cofnodion yr eglwys honno iddo farw ar 31 Mai 1690.

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau


Edmund Calamy, *An account of the ministers, lecturers, masters, and fellows of colleges and schoolmasters who were ejected or silenced after the Restoration in 1660* (London 1713), ii, 733

*Calendar of State Papers, Domestic Series*, 1663-4, 568-9; Entry Book 38A, 197, dogfennau trwydded

*Broadmead Records* (1847, 1865) (gol. Underhill), addenda B, 514, Glamorganshire

*Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, xv, 51


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733298


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu